Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

31 Mawrth 2009

Mae angen i fwy o ysgolion fabwysiadu arfer orau i wella medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion

Mae Estyn wedi cyhoeddi adroddiad heddiw ar arfer orau yng ngwaith darllen ac ysgrifennu plant rhwng 5 a 7 oed. Er bod llawer o ysgolion wedi bod yn llwyddiannus wrth wella safonau dros y degawd diwethaf, mae cyflymder y gwelliant bellach wedi arafu. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae cyfran y plant 5-7 oed sy'n cyflawni lefelau da o ran medrau darllen ac ysgrifennu wedi stopio codi mewn Cymraeg a Saesneg.

Mae pedair elfen iaith: gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn datblygu gyda'i gilydd. Mae anhawster mewn llefaredd yn cyfyngu cynnydd disgyblion wrth iddynt ddysgu darllen ac ysgrifennu. Dywed Estyn nad yw tua un o bob saith disgybl yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer plant 7 oed mewn siarad a gwrando.

Dywed Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, "Dros ddeng mlynedd yn ôl, roedd llawer o ysgolion yn canolbwyntio eu hymdrechion ar wella'r drefn o gynllunio ac addysgu darllen, wnaeth helpu gwella safonau mewn Cymraeg a Saesneg. Mae angen i lawer o ysgolion ganolbwyntio nawr ar y meysydd sydd wedi'u hamlygu yn yr adroddiad hwn os ydym ni am godi safonau ymhellach. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys gwella medrau llefaredd disgyblion a datblygu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion yn eu hastudiaethau pwnc. Maen nhw hefyd yn cynnwys gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus a chanolbwyntio'n gryfach ar wella medrau ysgrifennu disgyblion. Mae

gallu darllen ac ysgrifennu'n gywir, yn rhugl a chyda hyder a dealltwriaeth yn hanfodol nid yn unig ar gyfer cyflawni safonau uchel mewn Cymraeg a Saesneg, ond hefyd ar gyfer rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion lwyddo ym mhob pwnc."

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched bron deirgwaith yn ehangach nag y mae mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Caiff y gyfradd araf y mae bechgyn yn datblygu medrau darllen ac ysgrifennu ei chydnabod fel un o'r ffactorau cyfrannol sy'n arwain at fwlch hyd yn oed yn ehangach mewn rhyw yn ddiweddarach yn y dysgu. Canfu arolygwyr y gellir lleihau'r bwlch hwn yn fawr os yw athrawon yn deall nodweddion ac ymddygiadau bechgyn unigol yn dda iawn ac yn addasu eu haddysgu i ddiwallu anghenion dysgu bechgyn.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gwella darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus, ond lleiafrif bach yn unig sy'n cynnig tasgau darllen ac ysgrifennu sydd wir yn ymestyn ac yn herio'r disgyblion hyn. Mae ysgolion sy'n effeithiol yn defnyddio ystod o strategaethau addysgu a dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi pwyslais cryf ar ddatrys problemau a gosod tasgau ysgrifennu mewn ystod eang o arddulliau a genres. Yn amlach na pheidio, nid yw ysgolion yn rhoi digon o flaenoriaeth i hyn.

Mae'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant rhwng 3 a 7 oed yn cynnig llawer o fanteision yn yr ymdrech i wella safonau darllen ac ysgrifennu. Yn yr ysgolion gorau, ceir cynllunio sydd wedi'i gydbwyso yn ofalus ar gyfer gwaith llythrennedd strwythuredig sy'n defnyddio gweithgareddau iaith yn seiliedig ar chwarae i sicrhau medrau llafar, darllen ac ysgrifennu.

Mae adroddiad Estyn yn amlinellu argymhellion ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar sut i fynd i'r afael â diffygion mewn safonau darllen ac ysgrifennu. Bydd yr adroddiad arfer orau yn cael ei ledaenu i bob ysgol yng Nghymru. Rydym eisiau i bob ysgol gymryd camau i helpu codi safonau mewn darllen ac ysgrifennu. Mae'r adroddiad yn cynnwys pecyn canllawiau ar gyfer ysgolion er mwyn eu helpu i hunanarfarnu ac ysgogi gwelliant mewn cynllunio'r cwricwlwm, ac mewn addysgu ac asesu, i ddiwallu anghenion pob disgybl.

DIWEDD

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Gina Carrington
Y Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464

Nodiadau i Olygyddion:

Ynglŷn â'r adroddiad

Comisiynwyd adroddiad Estyn 'Arfer orau yng ngwaith darllen ac ysgrifennu disgyblion rhwng pump a saith oed' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae ar gael yn llawn yn http://www.estyn.gov.uk/ThematicReports.asp

Mae sail y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad yn defnyddio:

- Arolygiadau ysgolion cynradd yn ystod 2005-2008 ac arolygiadau awdurdodau lleol
- Canlyniadau asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol mewn Cymraeg a Saesneg ar gyfer plant rhwng 5 a 7 oed
- Cyfweliadau gyda staff mewn 13 o ysgolion cynradd ac ymgynghorwyr llythrennedd
- Dogfennaeth a ddarparwyd gan ysgolion ac awdurdodau lleol ac ymchwil diweddar am addysgu darllen ac ysgrifennu.

Ynglŷn ag Estyn

Estyn yw'r Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Ein nod yw cyflawni rhagoriaeth i bawb mewn dysgu yng Nghymru. Rydym yn gwneud hyn trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chyngor annibynnol, o ansawdd uchel.

Ein gweledigaeth yw cael ein cydnabod trwy arbenigedd ein staff fel llais awdurdodol ar ddysgu yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru (o dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998) ond yn cael ein hariannu ganddi.

I gael rhagor o wybodaeth, trowch at ein gwefan: www.estyn.gov.uk